**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU**
**a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Iau, 8 Chwefror 2024**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), Cynghorwyr Chris James, Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Eryl Evans, Paul Hinge, Gareth Lloyd Mark Strong ac Ann Bowen Morgan

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies, Catrin M S Davies, Wyn Thomas, Alun Williams, Keith Henson, Matthew Vaux, Clive Davies. (Aelodau Cabinet).
Cynghorwyr Caryl Roberts, Rhodri Evans, Ceris Jones, Keith Evans, Hugh Hughes, Gwyn Wigley Evans.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Eifion Evans, Barry Rees, James Starbuck, Duncan Hall, Lowri Edwards, Elin Prysor, Elen James, Clive Williams, Kirsty Dawson, Carys Fowles, Lisa Evans,

(1.30 - 4.15 pm)

1 **Croeso ac Ymddiheuriadau**
Dim

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
Datganodd yr aelodau fuddiant personol ond nid oedd yn rhagfarnu fel llywodraethwyr ysgol a benodwyd gan y Cyngor.

3 **Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25**
Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
**Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**

- Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25:**
£1.539m o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion
£696k o'r gyllideb sy'n cael ei chadw ar gyfer y Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
**Y gyllideb bresennol:** £56.8m (gan gynnwys £47.5m a ddirprwyir i ysgolion)

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, tudalennau 15-16 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

**<u>Argymhellion:</u>**
O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
   a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
   b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
   c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
   d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
   e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
   f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
   g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

**<u>Rheswm dros yr argymhellion:</u>**
Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNODD Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno y byddai cynigion a nodwyd yn y dyfodol o ran arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen yn cael eu rhoi ar y flaenraglen graffu pan fo’n briodol.

**4 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf ac i drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion**

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn rhai cywir.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 9 Mai 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**